

Cynllun Pensiwn Prifysgol Cymru: Datganiad Gweithredu Blynyddol ar y Polisi Ymgysylltu

Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn nodi sut, ac i ba raddau, y mae'r Polisi Ymgysylltu yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ('SIP') a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolwr wedi'i ddilyn yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025. Paratowyd SIP diweddaredig gan yr Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn, gyda chopi i'w wneud ar gael ar wefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar ôl ei lofnodi ar ddiwedd y flwyddyn. Lluniwyd y datganiad hwn yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Diogelu Pensiynau (Gwasanaeth Pensiynadwy) a Chynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) (Diwygio ac Addasu) 2018 a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Yn ystod blwyddyn y Cynllun dan adolygiad, llywodraethwyd asedau buddsoddi gan y SIP a oedd mewn grym dyddiedig Ionawr 2025. Ym mis Mai / Mehefin 2025, fe wnaeth y Cynllun ddadrisgio ei strategaeth fuddsoddi, a chytunwyd ar SIP diweddaredig i adlewyrchu'r newid hwn gan yr Ymddiriedolwr ym mis Gorffennaf 2025. O ganlyniad, nid oedd dyraniad asedau'r Cynllun ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun yn cyfateb i'r SIP a oedd mewn grym ar ddechrau blwyddyn y Cynllun, ond yn hytrach wedi'i alinio â'r SIP y cytunwyd arno gan yr Ymddiriedolwr ar ddiwedd blwyddyn y Cynllun i adlewyrchu'r dadrisgio a ddigwyddodd.

Amcanion Buddsoddi'r Cynllun

Yr amcanion a nodir yma, a'r risgiau a'r ffactorau eraill y cyfeirir atynt, yw'r rhai a nodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i fod yn ystyriaethau sy'n berthnasol yn ariannol i'r Cynllun. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr fuddsoddi asedau'r Cynllun er budd gorau'r aelodau, y buddiolwyr a'r Brifysgol ac, yn achos gwrthdaro buddiannau posibl, er budd yr aelodau a'r buddiolwyr yn unig. Yn y cyd-destun hwn, prif amcanion yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â pholisi buddsoddi yw:

- Sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn gallu bodloni'r rhwymedigaethau a addawyd i fuddiolwyr y Cynllun gan y Brifysgol.
- Sicrhau cysondeb â threfniadau cyllido'r Cynllun.
- Rhoi sylw dyledus i fuddiannau'r Brifysgol o ran maint ac amllder taliadau cyfraniadau'r Brifysgol.

O ystyried natur y rhwymedigaethau, gallai cyfnod buddsoddi'r Cynllun fod yn hirdymor. Fodd bynnag, gall unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i drosglwyddo rhwymedigaethau (yn llawn neu'n rhannol) i gwmni yswiriant (e.e. trwy brynu blwydd-daliadau swmp gyda chwmni yswiriant) fyrhau cyfnod buddsoddi'r Cynllun yn sylweddol.

Polisi ar ESG, Stiwardiaeth a Newid Hinsawdd

Mae SIP y Cynllun yn cynnwys polisi'r Ymddiriedolwyr ar ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ('ESG'), stiwardiaeth a newid hinsawdd. Mae'r polisi hwn yn nodi credoau'r Ymddiriedolwyr ar ESG a newid hinsawdd a'r prosesau a ddilyniir gan yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â hawliau pleidleisio a stiwardiaeth.

Cynhaliwyd y gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â pholisi'r Ymddiriedolwyr ar ffactorau ESG, stiwardiaeth a newid hinsawdd, ac mae'n nodi sut y cafodd polisiâu ymgysylltu a phleidleisio'r Ymddiriedolwyr eu dilyn a'u gweithredu yn ystod y flwyddyn.

Fel y disgrifiwyd yn y SIP, ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried polisiau ESG y darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ("AVCs") a'r cronfeydd buddsoddi cysylltiedig gan fod y rhain yn gyfran fach o gyfanswm yr asedau.

Ymgysylltu

- Lle bo hynny'n berthnasol, mae Mercer Manager Research yn ystyried i ba raddau y mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol (ESG) sy'n berthnasol yn ariannol yn cael eu hintegreiddio i broses fuddsoddi a phenderfynu'r rheolwr ar draws dosbarthiadau asedau. Ymgorfforir ffactorau ESG ym mhroses diwydrwydd dyladwy buddsoddi ar y sail y gallai'r materion hyn effeithio ar reffeniw, costau gweithredu, mantais gystadleuol, a chost cyfalaf.
- Mae ymgynghorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, Mercer Limited ("Mercer"), yn pennu dangosyddion 'perthnasedd' ESG ac 'integreiddio ESG' i strategaethau rheolwyr buddsoddi, gan adlewyrchu perthnasedd ESG i'r strategaeth unigol, a lle bo'n berthnasol sut mae risgiau ac ystyriaethau ESG yn cael eu hymgorffori yn y broses fuddsoddi. Mae Mercer wedi tynnu sylw at y ffaith bod y cronfeydd giltiau y buddsoddwyd ynddynt gydag L&G 'y tu allan i'r cwmipas' o ran ystyriaethau ESG, oherwydd yr anawsterau sy'n ymwneud ag ymgysylltu ac integreiddio ESG i'r strategaethau hyn. Mae Mercer yn nodi bondiau corfforaethol L&G a chronfeydd twf amrywiol fel rhai 'integredig', gan fod ffactorau ESG wedi'u hintegreiddio'n llawn mewn diwydrwydd dyladwy buddsoddi, a bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn ystyried y wybodaeth hon yn eu proses benderfynu yn gyson, tra bod ecwiti goddefol yn cael ei ystyried yn 'y tu allan i'r cwmipas'.
- Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r rheolwr buddsoddi, L&G, gadarnhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion Cod Stiwardiaeth y DU. Cadarnhaodd L&G eu bod wedi llofnodi i ymrwymo i God Stiwardiaeth presennol y DU ers ei sefydlu a'u bod yn parhau i fod yn llofnodwr ar yr iteriad diweddaraf o God Stiwardiaeth y DU ar 11 Chwefror 2025.
- Derbyniodd yr Ymddiriedolwyr hefyd fanylion gan L&G am weithgarwch ymgysylltu perthnasol am y flwyddyn, a restrir isod.

L&G:

- Ymgysylltodd L&G â chwmnïau yn ystod y flwyddyn ar amrywiaeth eang o wahanol faterion gan gynnwys ffactorau ESG. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chwmnïau ar newid hinsawdd i sicrhau bod cwmnïau'n gwneud cynnydd yn y maes hwn ac yn alinio eu hunain yn well â'r amcanion ehangach ar newid hinsawdd yn yr economi (h.y. y rhai sy'n gysylltiedig â chytundeb Paris).
- O safbwynt hinsawdd, ym mis Mehefin 2025 datganodd L&G eu bod wedi cyhoeddi canlyniadau eu Hadduned Effaith Hinsawdd (CIP) o'u cylch ymgysylltu diweddaraf sy'n anelu at godi safonau'r farchnad ac annog cwmnïau i chwarae eu rhan wrth gyflawni nodau Cytundeb Paris. Dros y cyfnod pleidleisio drwy ddirprwy, gwelodd L&G well perfformiad ar draws y farchnad o ran eu graddfeydd CIP. Mae hyn yn dangos gwelliannau sylweddol o ran datgelu, yn ogystal â sut mae cwmnïau'n cynllunio ac yn

rheoli eu hymagwedd at newid hinsawdd a'r risg i natur. Helpu i yrru gwelliant y farchnad yw un o nodau ymgyrch ymgysylltu ysgrifenedig 'ehangach' L&G. Mae canlyniadau'r gwelliannau hyn wedi cyfrannu at ostyngiad o 46% yn nifer y cwmnïau a nodwyd fel rhai a allai, o bosibl, bleidleisio yn erbyn cadeirydd y bwrdd yn nhymor Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol (AGM) 2025.

- O ran ymgysylltu â ffactorau 'cymdeithasol', pwysleisiodd L&G fod cymysgedd amrywiol o sgiliau, profiad a safbwyntiau yn hanfodol er mwyn i gwmni a'i fwrdd weithredu a pherfformio i'w lefel optimaidd. Ym mhedwerydd chwarter 2024, ysgrifennodd L&G at 24 o gwmnïau FTSE 250 a 27 o gwmnïau Russell 1000 i nodi eu bod, yn seiliedig ar ymchwil o ddata a oedd ar gael trwy ddarparwyr gwybodaeth, wedi gweld nad oeddent yn bodloni'r disgwyliadau a nodir uchod, ac felly y gallent fod yn destun pleidlais yn erbyn ailethol y Cadeirydd yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol oedd ar ddod. Cadarnhaodd L&G eu bod wedi derbyn ymateb cryf gan y cwmnïau FTSE 250 yr oeddent wedi ysgrifennu atynt, rhai yn rhoi esboniad iddynt a oedd yn caniatáu i L&G roi mwy o amser i'r cwmni fodloni eu disgwyliadau. O ganlyniad i'r ymatebion, ar hyn o bryd mae L&G yn bwriadu pleidleisio yn erbyn 13 o gwmnïau FTSE 250 yn 2025. Ni chafodd L&G ymatebion gan y 27 o gwmnïau Russell 1000; ac maent yn cydnabod eu bod yn gweithredu yn erbyn cefndir gwleidyddol gwahanol i'r DU.
- O ran ymgysylltu ar faterion llywodraethiant, cadarnhaodd L&G fod Asiantaeth Gwasanaethau Ariannol Japan (FSA) wedi gofyn ar 28 Mawrth i bob un o'r 4,000 o gwmnïau rhestredig yn Japan gyhoeddi eu hadroddiadau gwarannau blyneddol (Yuho) cyn eu Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol. Mae'r Yuho yn cynnwys y datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n llawn a gwybodaeth bwysig arall sy'n gysylltiedig â llywodraethiant a chynaliadwyedd, y mae angen i fuddsoddwyr wneud penderfyniadau pleidleisio gwybodus amdanynt. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae mwy na 90% o Yuhos yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol neu ychydig ddyddiau ar ôl hynny. Roedd gan L&G gytundeb â'r FSA mai cam cyntaf yn unig yw cais diweddaraf y gweinidog cyllid i gyhoeddi'r Yuho "ddiwrnod cyn neu ychydig ddyddiau cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol" ond mae'n ddatblygiad calonogol serch hynny ynglŷn â mater hirsefydlog. Er bod L&G yn deall yr heriau cychwynnol i gwmnïau, byddant yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr a chwmnïau i helpu i yrru newid pellach gan eu bod yn credu y bydd gwelliannau go iawn o ran llywodraethiant a deialog buddsoddwyr yn bosibl dim ond os cyhoeddir Yuhos dair i bedair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.
- Rhoddodd L&G enghreifftiau o achosion lle roeddent wedi ymgysylltu â chwmnïau yr oeddent wedi buddsoddi ynddynt (neu roeddent ar fin buddsoddi ynddynt) a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol. Mae'r mentrau ymgysylltu hyn yn cael eu gyrru yn bennaf trwy gyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd gyda'r cwmnïau y mae L&G yn buddsoddi ynddynt neu drwy bleidleisio ar benderfyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol cwmnïau. Mae'r penderfyniadau yn aml yn cael eu cyd-ffeilio gan nifer o fuddsoddwyr sy'n nodi wrth reolwyr y cwmni a ydynt yn cefnogi'r penderfyniad ai peidio.

Gweithgarwch Pleidleisio

O gychwyn y datganiad hwn, disgwylir i L&G ddarparu adroddiadau pleidleisio cryno yn rheolaidd, o leiaf bob blwyddyn. Adolygir yr adroddiadau gan gynghorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr, ar ran yr Ymddiriedolwyr, i sicrhau bod gweithgarwch pleidleisio yn cyd-fynd â'u polisi buddsoddi cyffredinol a'r polisiâu a nodir yn y SIP. Bydd unrhyw wyriadau sylweddol o'r SIP yn cael eu codi a'u trafod gyda'r Ymddiriedolwyr.

Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolwyr yn gofyn i L&G dynnu sylw at weithgarwch pleidleisio allweddol a'r effaith ar y portffolio. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio gwella'r adrodd ar weithgarwch pleidleisio trwy adolygu adroddiad pleidleisio ac ymgysylltu blynyddol a gynhyrchir gan ymgynghorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio gwasanaethau uniongyrchol pleidleisiwr drwy ddirprwy, er bod L&G yn defnyddio gwasanaethau pleidleiswyr drwy ddirprwy wrth arfer ei hawliau pleidleisio ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Mae tîm Stiwardiaeth Buddsoddi L&G yn defnyddio platfform pleidleisio electronig 'ProxyExchange' Gwasanaethau Cyfranddalwyr Sefydliadol (ISS) i bleidleisio'n electronig ar gyfranddaliadau cleientiaid. Pwrpas defnyddio argymhellion ISS yw ychwanegu at ymchwil fewnol ac offer asesu perchnogol ESG, a hynny'n unig. Mae'r tîm Stiwardiaeth Buddsoddi hefyd yn defnyddio adroddiadau ymchwil Gwasanaethau Gwybodaeth Pleidleisio Sefydliadol (IVIS) i ategu adroddiadau ymchwil yr ISS ar gyfer cwmnïau yn y DU wrth i benderfyniadau pleidleisio penodol gael eu gwneud. Mae pob penderfyniad pleidleisio yn cael ei wneud gan L&G ac nid ydynt yn allanoli unrhyw ran o'r penderfyniadau strategol.

Wrth benderfynu ar bleidleisiau arwyddocaol, mae tîm Stiwardiaeth Buddsoddi L&G yn ystyried y meini prawf a ddarperir gan ymgynghoriad y Gymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Pleidlais proffil uchel sydd mor ddadleuol ei natur fel bod craffu uchel gan gleientiaid a/neu'r cyhoedd;
- Diddordeb sylweddol gan gleientiaid am bleidlais: wedi'i gyfathrebu'n uniongyrchol gan gleientiaid i'r tîm Stiwardiaeth Buddsoddi yn nigwyddiad bord gron blynyddol Rhanddeiliaid L&G, neu lle rydym yn nodi cynnydd sylweddol mewn ceisiadau gan gleientiaid ar bleidlais benodol;
- Caniatáu pleidlais o ganlyniad i ymgysylltu uniongyrchol neu gydweithredol;
- Pleidlais yn gysylltiedig ag ymgyrch ymgysylltu L&G, yn unol â themâu ymgysylltu blaenoriaethol 5 mlynedd ESG sy'n rhan o Stiwardiaeth Buddsoddi L&G.

Mae polisi pleidleisio'r rheolwr wedi'i ystyried gan yr ymgynghorydd buddsoddi, ar ran yr Ymddiriedolwyr, sy'n ystyried ei fod yn gyson â chredoau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.

Dros y 12 mis diwethaf, roedd y gweithgarwch pleidleisio allweddol ar ran yr Ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

L&G World Equity Index*:

Yn ystod y flwyddyn bu 2,839 o gyfarfodydd yr oedd L&G yn gymwys i bleidleisio ynddynt, a chafwyd cyfanswm o 35,343 o benderfyniadau. Pleidleisiodd L&G ar 99.9% o benderfyniadau yr oeddent yn gymwys i bleidleisio arnynt, gan bleidleisio gyda rheolwyr 79.4% o'r amser.

L&G Diversified Fund*:

Bu 10,460 o gyfarfodydd lle roedd L&G yn gymwys i bleidleisio dros y flwyddyn, lle cafwyd cyfanswm o 104,120 o benderfyniadau. Pleidleisiodd L&G ar 99.9% o benderfyniadau yr oeddent yn gymwys arnynt, gan bleidleisio gyda rheolwyr 76.5% o'r amser.

**Darparodd L&G ystadegau pleidleisio ar gyfer y flwyddyn hyd at 30/06/2025.*

Pleidleisiau Arwyddocaol

Rhyddhaodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) set o ofynion yn y Datganiad Gweithredu ar Bolisiau Ymgysylltu ar 17 Mehefin 2022, “Reporting on Stewardship and Other Topics through the Statement of Investment Principles and the Implementation Statement: Statutory and Non-Statutory Guidance” i'w fabwysiadu ym mhob Datganiad Gweithredu ar Bolisiau Ymgysylltu ar gyfer cynlluniau sydd â blynyddoedd adrodd yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Hydref 2022. Y newid mwyaf sylweddol oedd bod y Canllawiau Statudol yn darparu diweddariad ar yr hyn sy'n gyfystyr â "phleidlais arwyddocaol".

- Diffinnir pleidlais arwyddocaol fel un sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau/themâu stiwardiaeth y Cynllun;
- Gallai pleidlais hefyd fod yn arwyddocaol am resymau eraill, e.e. oherwydd maint y daliad;
- Disgwylir i ymddiriedolwyr gynnwys manylion pam yr ystyrir pleidlais yn arwyddocaol a rhesymeg dros benderfyniad pleidleisio.

Mae'r Ymddiriedolwr wedi nodi pleidleisiau sy'n ymwneud ag ESG. O ystyried nifer y pleidleisiau arwyddocaol a ddarparwyd, mae'r Ymddiriedolwr wedi defnyddio hidlydd maint ar sail perthnasedd. Oherwydd natur wahanol yr L&G Equity Fund a'r L&G Diversified Fund y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt, ystyrir bod pleidleisiau'n arwyddocaol dim ond mewn perthynas â chwmni sy'n ffurfio 1.25% neu fwy (L&G Equity Fund), neu 0.3% neu fwy (L&G Diversified Fund) o'r gronfa benodol. Mae'r wybodaeth bleidleisio sylweddol i'w gweld yn yr adran ganlynol.

Pleidleisio: L&G World Equity Index*

Rheolwr / Cronfa	Pleidleisiau arwyddocaol
L&G World Equity Index	Microsoft Corporation Cynnig y Cyfranddalwyr - "Adroddiad ar Atebolrwydd Cyrchu Data AI" Dyddiad y bleidlais: 10 Rhagfyr 2024 Maint y daliad: 4.1% o'r portffolio Pleidleisio: Yn erbyn Rheolwyr Rhesymeg y Rheolwyr: "Gellid cyfiawnhau pleidleisio o blaid y penderfyniad hwn gan fod y cwmni'n wynebu mwy o risgiau cyfreithiol a risgiau i enw da ynghylch torri hawlfraint yn gysylltiedig â'i arferion cyrchu data. Er bod y cwmni wedi datgelu'n glir ei ymagwedd at AI cyfrifol a risgiau cysylltiedig, byddai cyfranddalwyr yn elwa o fwy o sylw i risgiau sy'n ymwneud â sut mae'r cwmni'n defnyddio gwybodaeth trydydd parti i hyfforddi ei fodelau iaith mawr." A oedd hyn wedi'i gyfathrebu i'r cwmni cyn y bleidlais: Mae L&G yn cyfathrebu ei gyfarwyddiadau pleidleisio yn gyhoeddus ar ei wefan y diwrnod ar ôl cyfarfod y cwmni, gyda rhesymeg dros bob pleidlais yn erbyn rheolwyr. Mae'n bolisi gan L&G i beidio ag ymgysylltu â'r cwmnïau mae'n buddsoddi ynddynt yn ystod y tair wythnos cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan nad yw eu hymgylltiad wedi'i gyfyngu i faterion cyfarfodydd cyfranddalwyr. Canlyniad y bleidlais: Methodd y cynnig Camau nesaf: Bydd L&G yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ac yn monitro cynnydd.

	Y meini prawf y mae'r bleidlais hon yn eu bodloni: Llywodraethiant
L&G World Equity Index	Meta Platforms Inc. Cynnig y Cyfranddalwyr - "Ethol Peggy Alford yn Gyfarwyddwr" Dyddiad y bleidlais: 28 Mai 2025 Maint y daliad: 1.7% o'r portffolio Pleidleisio: Yn erbyn Rheolwyr Rhesymeg y Rheolwyr: "Pleidleisir yn erbyn gan fod L&G yn disgwyl i gwmnïau ethol cyfarwyddwr arweiniol annibynnol lle bo Cadeirydd Bwrdd a Phrif Swyddog Gweithredol cyfunol. A oedd hyn wedi'i gyfathrebu i'r cwmni cyn y bleidlais: Mae L&G yn cyfathrebu ei gyfarwyddiadau pleidleisio yn gyhoeddus ar ei wefan y diwrnod ar ôl cyfarfod y cwmni, gyda rhesymeg dros bob pleidlais yn erbyn rheolwyr. Mae'n bolisi gan L&G i beidio ag ymgysylltu â'r cwmnïau mae'n buddsoddi ynddynt yn ystod y tair wythnos cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol gan nad yw eu hymgysylltiad wedi'i gyfyngu i faterion cyfarfodydd cyfranddalwyr. Canlyniad y bleidlais: Heb ei ddatgelu. Camau nesaf: Bydd L&G yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ac yn monitro cynnydd. Y meini prawf y mae'r bleidlais hon yn eu bodloni: Llywodraethiant
L&G World Equity Index	Alphabet Inc. Cynnig y Cyfranddalwyr - "Ethol John L. Hennessy yn Gyfarwyddwr" Dyddiad y bleidlais: 6 Mehefin 2025 Maint y daliad: 1.3% o'r portffolio Pleidleisio: Yn erbyn Rheolwyr Rhesymeg y Rheolwyr: "Pleidleisir yn erbyn (ail)ethol cyfarwyddwr nad yw'n annibynnol oherwydd diffyg annibyniaeth ar y bwrdd." A oedd hyn wedi'i gyfathrebu i'r cwmni cyn y bleidlais: Mae L&G yn cyfathrebu ei gyfarwyddiadau pleidleisio yn gyhoeddus ar ei wefan y diwrnod ar ôl cyfarfod y cwmni, gyda rhesymeg dros bob pleidlais yn erbyn rheolwyr. Mae'n bolisi gan L&G i beidio ag ymgysylltu â'r cwmnïau mae'n buddsoddi ynddynt yn ystod y tair wythnos cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol gan nad yw eu hymgysylltiad wedi'i gyfyngu i faterion cyfarfodydd cyfranddalwyr. Canlyniad y bleidlais: Pasiwyd y cynnig Camau nesaf: Bydd L&G yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ac yn monitro cynnydd. Y meini prawf y mae'r bleidlais hon yn eu bodloni: Llywodraethiant

Pleidleisio: L&G Diversified Fund*

Rheolwr / Cronfa	Pleidleisiau arwyddocaol
L&G Diversified Fund	Microsoft Corporation

	Penderfyniad Cyfranddalwyr - "Adroddiad ar Atebolrwydd Cyrchu Data AI" Dyddiad y bleidlais: 10 Rhagfyr 2024 Maint y daliad: 0.3% o'r portffolio Pleidleisio: Yn erbyn Rheolwyr Rhesymeg y Rheolwyr: "Gellid cyfiawnhau pleidleisio o blaid y penderfyniad hwn gan fod y cwmni'n wynebu mwy o risgiau cyfreithiol a risgiau i enw da ynghylch torri hawlfraint yn gysylltiedig â'i arferion cyrchu data. Er bod y cwmni wedi datgelu'n glir ei ymagwedd at AI cyfrifol a risgiau cysylltiedig, byddai cyfranddalwyr yn elwa o fwy o sylw i risgiau sy'n ymwneud â sut mae'r cwmni'n defnyddio gwybodaeth trydydd parti i hyfforddi ei fodelau iaith mawr." A oedd hyn wedi'i gyfathrebu i'r cwmni cyn y bleidlais: Mae L&G yn cyfathrebu ei gyfarwyddiadau pleidleisio yn gyhoeddus ar ei wefan y diwrnod ar ôl cyfarfod y cwmni, gyda rhesymeg dros bob pleidlais yn erbyn rheolwyr. Mae'n bolisi gan L&G i beidio ag ymgysylltu â'r cwmnïau mae'n buddsoddi ynddynt yn ystod y tair wythnos cyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol gan nad yw eu hymgysylltiad wedi'i gyfyngu i faterion cyfarfodydd cyfranddalwyr. Canlyniad y bleidlais: Methodd y cynnig Camau nesaf: Bydd L&G yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ac yn monitro cynnydd. Y meini prawf y mae'r bleidlais hon yn eu bodloni: Llywodraethiant
L&G Diversified Fund	Prologis Inc. Cynnig y Cyfranddalwyr - "Ethol Hamid R. Moghadam" yn Gyfarwyddwr Dyddiad y bleidlais: 22 Mai 2025 Maint y daliad: 0.3% o'r portffolio Pleidleisio: Yn erbyn Rheolwyr Rhesymeg y Rheolwyr: "Pleidleisir yn erbyn gan fod L&G yn disgwyl i gwmnïau wahanu rolau Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol oherwydd pryderon rheoli a goruchwyllo risg. A oedd hyn wedi'i gyfathrebu i'r cwmni cyn y bleidlais: Mae L&G yn cyfathrebu ei gyfarwyddiadau pleidleisio yn gyhoeddus ar ei wefan y diwrnod ar ôl cyfarfod y cwmni, gyda rhesymeg dros bob pleidlais yn erbyn rheolwyr. Mae'n bolisi gan L&G i beidio ag ymgysylltu â'r cwmnïau mae'n buddsoddi ynddynt yn ystod y tair wythnos cyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol gan nad yw eu hymgysylltiad wedi'i gyfyngu i faterion cyfarfodydd cyfranddalwyr. Canlyniad y bleidlais: Heb ei ddatgelu. Camau nesaf: Bydd L&G yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni ac yn monitro cynnydd. Y meini prawf y mae'r bleidlais hon yn eu bodloni: Llywodraethiant

**Darparodd L&G ystadegau pleidleisio ar gyfer y flwyddyn hyd at 30/06/2025.*